

**CYNLLUN GWERS CALCH**

<b>Pwnc</b>	<b>Uned</b>	<b>Gwers</b>	<b>Cyfnod Allweddol</b>
<b>Celfyddyd a dylunio</b>	<b>4</b>	<b>Mynd ati i fod yn greadigol</b>	<b>CA2/3</b>
<p><b>Amcanion dysgu:</b> Erbyn diwedd y wers, dyma beth ddylai'r disgyblion fod wedi'i ddysgu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr effaith fawr mae cloddio wedi'i gael ar y dirwedd</li> <li>• Sut i ddefnyddio dylanwadau artistiaid eraill yn eu celfyddydwaith eu hunain</li> <li>• Defnyddio amrywiaeth o ran siâp, ffurf, lliw, gofod, gweadedd a phatrwm, safbwyntiau, persbectif, blaendir a chefnidir i greu darn o gelfyddydwaith</li> </ul>			
<p><b>Geiriau allweddol:</b> calchfaen, chwareli, odynnau, siâp, ffurf, lliw, gofod, gweadedd a phatrwm, safbwyntiau, persbectif, blaendir a chefnidir</p>			
<p><b>Cyflwyniad:</b></p> <p>Mae'r wers hon yn barhad o'r wers flaenorol ac, yn dibynnu ar yr amser sydd wedi'i neilltuo i'r project hwn, bydd y disgyblion ar gamau gwahanol o'r broses greadigol a chreu. Dylai'r disgyblion barhau i weithio ar eu pen eu hunain yn ystod yr awr hon.</p>			<p><b>Amseru</b> (Yn seiliedig ar 60 mun)</p> <p><b>5 mun</b></p>
<p><b>Prif ran:</b></p> <p>Dylai'r disgyblion yn awr barhau i ddatblygu'r arsylwadau, y syniadau a'r teimladau yn gynlluniau, a pharhau i wneud delweddau neu arteffactau. Dylai'r disgyblion feddwl am liw, patrwm, gweadedd, tŷn a siâp, a sut y gellir cyfuno a threfnu'r rhain i ddibenion gwahanol. Dylai'r disgyblion fod wedi defnyddio gwaith artistiaid eraill yn eu proses gynllunio i'w cynorthwyo i feddwl am eu harddull creadigol eu hunain. Dylen nhw barhau i weithio at orffen eu gwaith.</p> <p>Gellid dilyn hyn trwy gynnal arddangosfa gelfyddyd gyda'r nos ar gyfer rhieni neu arddangosfa yn y dosbarth.</p>			<p><b>50 mun</b></p>
<p><b>Sesiwn lawn:</b></p> <p>I gloi, dylai'r disgyblion grynhai'n fyr yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu trwy gydol y project, gan feddwl yn arbennig am yr hyn roedden nhw wedi'i ymgorffori yn eu celfyddydwaith.</p>			<p><b>5 mun</b></p>
<p><b>Gwahaniaethu:</b></p> <p>Dylai'r disgyblion weithio yn ôl eu gallu eu hunain yn ystod y wers hon, ond dylid cynnig help ychwanegol i'r disgyblion llai abl a allai ganfod y broses greadigol yn anodd.</p>			
<p><b>Asesu:</b></p> <p>Dylai'r disgyblion fod wedi canfod nodweddion yn eu proses greu a gallu dweud beth maen nhw'n ei feddwl ac yn ei deimlo amdany'n nhw.</p> <p>Dylen nhw allu cofnodi manylion am ddulliau artistiaid gwahanol er mwyn llywio eu gwaith eu hunain. Lle bo hynny'n bosibl, dylai eu gwaith ddangos dealltwriaeth o faint cymharol, pellter, siâp ac adeiledd.</p>			
<p><b>Adnoddau:</b></p> <p>Mae hyn yn dibynnu ar brojectau'r disgyblion a'r adnoddau sydd ar gael iddyn nhw.</p>			
<p><b>Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd:</b></p> <p><b>Llythrennedd</b> – gellir cysylltu'r wers hon â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Gofynnir i'r disgyblion siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith briodol</i></li> <li>• <i>Casglu a threfnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol</i></li> <li>• <i>Ehangu ar syniadau gyda rhesymau cefnogol</i></li> </ul>			

• *Gwneud mwy o waith ymchwil ar y syniadau cychwynnol sydd o ddiddordeb iddyn nhw*  
**Rhifedd** – gellir cysylltu'r wers hon â rhifedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Amseru digwyddiadau a threfnu canlyniadau*

**Cysylltiadau eraill â'r cwricwlwm:** Cysylltiadau trawsgwricwlaidd â TGCh trwy ddefnyddio delweddau digidol i helpu i greu eu dehongliad, a hefyd â Dylunio a Thechnoleg trwy weithio gydag unrhyw gyfarpar i greu eu gwaith